



Canllawiau: Grant Gwella Addysg (GGA) 2020-21

*Telerau ac Amodau Llywodraeth Cymru
A Chwestiynau Cyffredin*





Cynnwys

1.1 Pwrpas y Cyllid	3
1.2 Cynlluniau Datblygu Ysgol	3
1.3 Amodau penodol	3
Cwestiynau Cyffredin (CC)	4-5
Y Cyfnod Sylfaen	5
Y Gymraeg mewn Addysg	5
Llwybrau Dysgu 14-16	5

1.1 Pwrpas y Cyllid

Pwrpas y cyllid yw cefnogi'r modd y cyflawnir y dyheadau a'r blaenoriaethau i ysgolion ac addysg, a nodir o dan Uchelgeisiol a Dysgu yn ein strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, a'n cynllun gweithredu ar gyfer addysg, *Cenhadaeth ein Cenedl*.

Rhaid defnyddio'r cyllid i ddarparu cymorth wrth gyflawni'r blaenoriaethau addysg cenedlaethol, ac wrth wraidd hynny y mae cwricwlwm gweddnewidiol a phwyslais ar bedwar amcan galluogi allweddol:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
- Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau
- Iechyd a Llesiant
- Trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd.

1.2 Cynlluniau Datblygu Ysgol

Bellach, nid oes angen cynlluniau gwariant grant ar lefel ysgol.

Bydd ysgolion yn defnyddio eu Cynlluniau Datblygu Ysgol i gyfrifo sut y byddant yn defnyddio'u cyllid i gyflawni eu deilliannau. Mae adran ar y Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau i ysgolion ei chwblhau fel rhan o'u trefn gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol.

Bydd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant y consortia yn cynnig cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau datblygu ysgol yn adlewyrchiad priodol o'u taith tuag at welliant a blaenoriaethau lleol.

1.3 Amodau penodol

Mae'r Grant Gwella Addysg yn cynnwys cyllid i gefnogi ysgolion i gyflawni rhai elfennau o'u dyletswyddau statudol. Rhoddir crynodeb byr o'r gofynion hyn isod:

Elfen y Cyfnod Sylfaen

Rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gymhareb staff i ddsgrwr yn y Cyfnod Sylfaen, a gellir ei ddefnyddio i hwyluso gofynion cadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19. Er mwyn cyflwyno cwricwlwm Cyfnod Sylfaen o ansawdd uchel ac effeithiol (gan gynnwys talu am lanw ar gyfer absenoldebau eraill ar wahân i ddibenion hyfforddi), rhaid i leoliadau fod yn gweithio tuag at gyflawni cymhareb yn y Cyfnod Sylfaen o 1:8 ar gyfer y Meithrin a'r Derbyn, ac 1:15 ar gyfer Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.



Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Rhaid defnyddio'r cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol, er mwyn gweithio tuag at amcanion Strategaeth Cymraeg 2050.

Cwestiynau Cyffredin (CC)

CC1: Beth yw'r gyfradd datganoli i ysgolion?

Mae Telerau ac Amodau'r GGA yn nodi bod rhaid datganoli isafswm o 80% i ysgolion. Ar gyfer 2020/21, caiff 90.03% o'r grant ei ddatganoli.

CC2: Pa amcanion galluogi fydd y grant yn eu cefnogi?

Bydd y cyllid yn cefnogi'r amcanion strategol a amlinellir yn ein blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer addysg:

- Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel
- Arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau
- Iechyd a Llesiant
- Trefniadau asesu, arfarnu ac atebolrwydd

Rhaid i'r mentrau a gyllidir gan y grant fod yn gynaliadwy, yn canolbwyntio ar y dysgwyr, ac yn cydfynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

CC3: A fydd rhaid dyrannu'r ffigwr cyffredinol ar gyfer y GGA yn erbyn llythrennedd, rhifedd, Y Gymraeg mewn Addysg ayyb., yn y cynllun gwella ysgol?

Nid oes rhaid i ysgolion ddsbarthu gwariant yn ôl Amcanion y Grant. Gwaith penaethiaid unigol, mewn ymgynghoriad â'u hymgynghorwyr cefnogi gwelliant, yw pennu faint ac ar ba faes blaenoriaeth y dymunant wario'u grant. Rhaid ymgorffori'r manylion yn y cynllun datblygu ysgol.

CC4: A fydd rhaid i mi gyflwyno cynllun blynyddol wedi'i gostio ar wahân?

Nid oes angen cynlluniau gwariant ar lefel ysgol. Fodd bynnag, mae disgwyliad clir i ysgolion ddarparu dadansoddiad o'u GGA yn eu CDY.

CC5: A fydd y consortiwm yn darparu templed?

Mae GwE yn darparu templed i ysgolion ei ddefnyddio yn rhan o'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau. Gofynnir i chi gwblhau hwn fel rhan o'r broses o gynllunio datblygiad eich ysgol, a'i rannu gyda'ch Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant. Gofynnir i chi hefyd lwytho copi o'ch Cynllun Datblygu Ysgol ar G6.

CC6: Y Cyfnod Sylfaen

A fydda i'n derbyn dyraniad ar wahân er mwyn cwrdd â'r cymarebau gofynnol o fewn y Cyfnod Sylfaen?

Na fyddwch. Cyfrifoldeb y pennaeth fydd dyrannu'r arian. Fodd bynnag, bydd rhaid iddynt ystyried y gofynion o fewn amodau a thelerau'r grant, sy'n datgan y dylai ysgolion weithio tuag at gyflawni'r cymarebau a argymhellir.

Sut mae'r cyllid hwn wedi'i ddsbarthu?

Mae'r cyllid wedi'i ddatganoli i ALLau unigol. Pennir y dull o ddsbarthu'r grant hwn gan yr ALL unigol.

Lleoliadau Cyfnod Sylfaen nas Cynhelir - Sut mae'r cyllid hwn wedi'i ddsbarthu?

Mae'r cyllid wedi'i ddatganoli i ALLau unigol. Pennir y dull o ddsbarthu elfen hon y grant gan yr ALL unigol.

CC7: Y Gymraeg mewn Addysg

Sut mae'r cyllid hwn wedi'i ddsbarthu?

Mae'r cyllid wedi'i ddatganoli i ALLau unigol. Pennir y dull o ddsbarthu elfen hon y grant gan yr ALL unigol.

CC8: Llwybrau Dysgu 14-16

Sut mae'r cyllid hwn wedi'i ddsbarthu?

Mae'r cyllid wedi'i ddatganoli i ALLau unigol. Pennir y dull o ddsbarthu elfen hon y grant gan yr ALL unigol.